BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MAI 19, 2026

**Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Mai, 19, 2026 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Aaron Roberts, Meurig Ashton, Emlyn Roberts, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Wyn Rowlands. Delyth Lloyd Griffiths, Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Llion Williams, Robin Jones.

**3. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Robin Jones
Is Gadeirydd: Karen Goswell.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:
Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Robin Jones, Karen Goswell

Yn absenoldeb Robin Jones (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Karen Goswell (Is Gadeirydd)

**4. Datgan diddordeb.**

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 17, 2026**

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 17, 2026**

Eitem 5. Eitem 8.d. Roedd angen gwblhau ffurflen HSBC i gau'r cyfrif. Gwnaethpwyd hyn.

Eitem 5. Eitem 10. Llythyr (27/3/2026) oddi wrth Wena Haf Green, Uwch Gymhorthydd Gweinyddol, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn holi os rydym yn cynnal ein cyfarfodydd trwy Microsoft Teams.

Rhoddwyd gwybod iddi rydym yn cynnal ein cyfarfodydd yn fisol yn neuaddau y gymuned.

Llythyr (16/4/2026) oddi wrth Delyth i anfon disgrifiad swydd y Clerc i Carys Jones, Llwynsarn.
Anfonwyd y wybodaeth iddi (17/4/2026).

Llythyr (11/5/2026) oddi wrth Delyth i anfon disgrifiad swydd y Clerc i Llinos Mair Evans, Cyngor Gwynedd.
Anfonwyd y wybodaeth iddi (11/5/2026).

Mae'r aelodau yn parhau yn ymdrechu am Glerc.

Eitem 6.c. Penderfynwyd i Gerallt ddelio gyda'r Land Charge.

Eitem 10.a. Anfonwyd llythyr (20/3/2026) i gynorthwyo Adran Tai ac Eiddo am gael cyfarfod. Rhoddwyd gwybod iddynt bydd ein cyfarfod nesaf ar Fai 19, 2026 am 7.30yh yn Neuadd Rhydymain.

Llythyr ateb (2/4/2026) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo (gan Lowri Cadwaladr) yn rhoi gwybod mae'n debygol bydd rhan o'r cae chwarae yn cael ei ddefnyddio fel lle parcio i'r cartrefi newydd a bydd hyn yn cael effaith ar ddarpariaeth parcio mewn cyswllt a defnydd y neuadd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (11/5/2026) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod nid oedd yn cytuno gyda llythyr derbyniwyd gan yr Adran. Derbyniwyd llythyr gan (11/5/2026) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod nid oedd yn cytuno gyda llythyr derbyniwyd gan yr Adran.

Derbyniwyd llythyr (11/5/2026) oddi wrth Gerallt i ni wneud ymoliadau gyda'r Adran ynglŷn â throsglwyddo'r tir i'r Cyngor Cymuned. Rhoddwyd gwybod iddo a'r aelodau rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r Adran sawl tro ynglŷn â'r mater.

Derbyniwyd llythyr (11/5/2026) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod nid oedd yn cytuno gyda llythyr derbyniwyd gan yr Adran. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nid oedd y Clerc am gysylltu gyda'r Adran ynglŷn â'r mater ac i Delyth neu yr aelodau fel cynghorwyr i ddelio gyda'r mater.

Eitem 7.b. Llythyr (27/4/2026) oddi wrth y Parc yn atgoffa am gyflwyno Safleoedd Posib erbyn 11/5/2026.

## 7. Gohebiaeth

a. Llythyr (25/3/2026) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda rhybudd yn rhoi gwybod bydd ffordd o'r gyffordd i'r gogledd o Hengwrt Uchaf i Bont ar Felau, Rhydymain ar gau ar 15/4/2026 i gerbydau er mwyn gwneud gwaith amnewid polyn.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Anfonwyd (2/4/2026) dyddiadau ein cyfarfodydd i neuaddau Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain.

c. Llythyr (17/4/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionydd ar Zoom ar 14/4/2026 am 7:00yh. Amgáu mae Agenda a Chofnodion cyfarfod 14/1/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (17/4/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys Cofnodion y cyfarfod 14/4/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (8/4/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnig cyrsiau hyfforddiant am ddim i gynghorwyr yn 2026 - 2027.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (12/4/2026) oddi wrth Gareth Jones, Heddlu Gogledd Cymru, yn rhoi gwybod mae angen enw dau neu dri aelod i fod yn bresennol yn cyfarfod yng Ngorsaf Heddlu, Dolgellau. Bydd y cyfarfod ym mis Mai i drafod planiau'r heddlu dros adeg yr haf a chyfarfod ag aelodau Tim Heddlu Cymunedol Lleol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd bydd Gerallt a Karen yn bresenol yn y cyfarfod.

dd. Llythyr (13/4/2026) oddi wrth Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am Gronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd sydd yn cefnogi digwyddiadau ymwneud ag amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd. Dyddiad cau y gronfa yw 15/5/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (14/5/2026) oddi wrth Gerallt yn gofyn am 2 fainc picnic a 2 blanwr i ddal blodau a'u lleoli ger Neuadd Bentref Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i Gerallt gwneud y cais am y grant.

e. Llythyr (14/4/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys ffurflen Cwrteisi a Pharch ei lenwi i roi gwybod iddynt mae'r Cyngor yn gwrtais mewn ymddygiad, lleferydd a'r gair ysgrifenedig.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (20/4/206) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys Pecyn Hunanasesu Cyllid a Llywodraethiant (Finance and Governance Self-Assessment).

ff. Llythyr (21/4/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni yn Brithdir a Llanfachreth yn 4-8/5/2026 a bydd gwaith yn cael ei wneud i amnewid camfa ar Lwybr 38 yn Ystumgwadnaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (13/5/2026) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau hyfforddiant Mai – Mehefin 2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (8/4/2026) yn rhoi gwybod mae ceisiadau at Gronfeydd Cymunedol Eryri ar gael i gefnogi cymunedau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**9. Materion Ariannol**

a. Anfonwyd llythyr (23/4/2026) i Archwilio Cymru yn rhoi gwybod nid ydynt wedi cyflwyno siec am £795 i'r banc tuag at daliad ffioedd archwiliad 2023/24. Rhif y siec yw 100772 ac wedi ei dyddio 16/9/2025. Gweler cofnodion Medi 17, 2025, Eitem 8.b.

Cafwyd gwybod (7/4/2026 a 7/5/2026) nid ydynt wedi derbyn y siec ac yn disgwyl y taliad.

Penderfynwyd anfon siec newydd iddynt.

b. Llythyr (8/4/2026) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2026.

P11 summary.

Bil am £240.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2026 ac am roi gwybodaeth gyflog fisol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn i'r gweithiwr.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2025 – Mawrth 31, 2026:

Papur - £75.89
Inc - £903.45
Stampiau post – £65.43
Cyfanswm- £1,044.77 (Llynedd roedd y costau yn £1,109.94).

Penderfynwyd talu'r costau.

ch. Llythyr (27/4/2026) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £7,000 yn ein cyfrif tua ar 30/4/2025. Taliad am hanner blwyddyn.

d. Bil (4/5/2026) am £20 oddi wrth Llygad y Dydd am y ddau hysbyseb (llwybrau a chlerc) rhoddwyd yn rhifyn Ebrill o'r papur bro.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Llythyr (5/5/2026) oddi wrth Zurich, ein cwmni yswiriant. Amgáu mae dogfennau yr yswiriant. I'w adnewyddu am y cyfnod 1/6/2026 – 31/5/2027 y taliad yw £681.09. (Taliad flwyddyn ddiwethaf oedd £640.46).

Penderfynwyd talu'r ffi.

e. Anfonwyd (11/42026) copi o Cyfrifon y Cyngor 2025/2026 a chopi o Gyllideb 2026/2027 at sylw'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r wybodaeth.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/3/2026: £162.46.
Balans yn y banc ar 29/3/2026: £4,167.10.

**10. Archwilio**

a. Llythyr (20/3/2026) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys dogfennau i baratoi archwiliad Sylfaenol (Basic) 2025-2026.

Mae rhaid cwblhau'r Ffurflen Flynyddol a'i gymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2026.

Mae rhaid cyflwyno'r archwiliad erbyn 7 Gorffennaf 2026.

Mae rhaid cwblhau'r cyfnod arolygu cyhoeddus i'r etholwyr archwilio'r cyfrifon cyn 11 Medi 2026.

Mae angen i'r Cadeirydd arwyddo Ffurflen flynyddol daeth i ben 31 Mawrth 2026.

Arwyddwyd y Ffurflen gan Karen (Is Gadeirydd).

b. Anfonwyd (21/3/2026) llythyr i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt archwilio dogfennau y Cyngor am y cyfnod 2025-2026.

Llythyr (15/4/2026) oddi wrth Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhestri dogfennau maent ei angen. Amgáu mae templed yw defnyddio i benodi'r archwiliwr; anfonwyd y llythyr ar 16/4/2026.

**11. Materion yr Aelodau**

**12. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (9/4/2026) oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod maent yn arolygu'r coed yr ardal yn flynyddol ac eleni maent wedi torri tua 30 o goed. Er arolygu'r coed, mae etholwyr ardal Hywel Dda, Rhydymain yn pryderu am ddiogelwch coed sydd mewn cyflwr gwael ac yn agos iawn i'r ffordd fawr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwybod am y pryderon, ac anfonwyd copi o'r llythyr i Gyngor Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (13/5/2026) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys poster yn rhoi gwybod am gyfarfod Ffermio Bro bydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Llanelltyd, Mai 20 am 7.30yh.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Cais gan etholwyr yn bentref Rhydymain i'r Cyngor asesu pa mor gyflym mae y ceir yn teithio yn ganol y pentref. Dwi wedi gofyn i'r Cyngor asesu y lleoliad ar gyfer rhoi rhwystr i ba mor gyflym mae ceir yn medru teithio yn y pentref.

d. Coed tu ôl i Hywel Dda sydd yn beryg i deithwyr ar y ffordd oherwydd cyflwr y Coed. Huw Green Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gwybod y bydd y coed sydd yno yn dod i lawr fel rhan o'i gynllun mawr o ran bod llawer o waith i'w wneud yn y lleoliad. Mae wedi cytuno i gael ymweliad safle yn fuan ar ôl 19/5/26. Delyth i lythyru gyda'r swyddog eto i adrodd fod y peryg yn fawr iawn ar gyfer teithwyr a cherddwyr. Roedd digwyddiad difrifol yn y lleoliad yn ddiweddar. Mae angen i mi gysylltu gydag adran Cefnffyrdd hefyd i fynegi y lefel o bryder am ddiogelwch yn y safle.

e. Cyflymder ceir yn ardal Hufenfa Rhydymain.
Trefnwyd i ddau swyddog o Cefnffyrdd a Mabon ap Gwynfor ein AS i fynychu y safle 2/4/26 i drafod sut mae yn bosib osgoi mwy o ddamweiniau ar y safle. Bu i mi ddilyn hyn drwy gysylltu efo Prif Swyddog Cefnffyrdd Merfyn Morus i ofyn am ddiweddariad wythnos yma.

f. Pont Ffatri – angen gofyn i Llywodraeth Cymru a Cefnffyrdd am ddiweddariad ac amserlen i gychwyn y gwaith.

ff. Tyfiant ar y ffyrdd ar waelod ffordd i lawr o Hengwrt a hefyd yn yr adwy wrth fynd i mewn i bentref Rhydymain ar ochr yr ysgol. Mae y tyfiant, sydd yn broblem bob blwyddyn wedi ei anfon fel cais i'r Adran Priffyrdd i ddatrys y broblem yn y tymor hir 8/5/26 ac eto 20/5/26.

g. Yr wyf yn parhâu i weithio i ddatrys problemau a gwella cyflwr y cartrefi yn ogystal ar adeiladau amaethyddol yn y Sir gan ddechrau y gwaith o wario y £2.1m sydd wedi ei gadarnhau gan y Cabinet ar gyfer y gwaith.

h. Yr wyf wedi fy mhenodi fel Is Gadeirydd Cyngor Gwynedd ar gyfer 2026/27

i. Datblygiad Hen Ysgol Llanfachreth. Delyth i drefnu cael diweddariad gan y swyddog prosiect. Wedi ei drefnu ar gyfer 22/5/26

j. Delyth i roi hysbyseb am swydd y clerc ar FB ardal Brithdir.

Llofnod: Dyddiad: